Amaethyddiaeth a Bioamrywiaeth yng Ngogledd Orllewin Cymru

CYFRANIAD CYNLLUNIAU AMAETH-AMGYLCHEDDOL CYMRU AT DARGEDAU CYNLLUNIAU GWEITHREDU CYNEFINOEDD LLEOL A CHADWRAETH BIOAMRYWIAETH

Baptiste Roland, Mehefin - Awst 2005

Crynodeb:

Mae'r ddogfen hon yn cyflwyno canlyniadau asesiad o bedwar cynllun amaeth-amgylcheddol ar Gynlluniau Gweithredu Cynefinoedd (HAPs) Gogledd Orllewin Cymru ac mae'n gwneud argymhellion allweddol.

Ar ôl rhoi disgrifiad byr o gynllun Tir Gofal, y Cynllun Ardal Amgylcheddol Sensitif (ESA), y Cynllun Cymorth Organig a'r Cynllun Cynefinoedd, crëwyd methodoleg i asesu pob cynllun. Mae'n cymharu honiadau a chanlyniadau arolygon monitro gyda thargedau cynefinoedd 20 Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol. Crëwyd graddfa benodol i werthuso cyfraniad y pedwar cynllun at gyrraedd targedau HAP.

Dengys y canlyniadau bod cynllun fel Tir Gofal gyda chytundeb opsiynau a Ffermio Organig yn ffyrdd da o gyrraedd targedau HAP.

Mae'r targedau ar gyfer ymylon caeau âr a/neu wrychoedd rhywogaeth-gyfoethog a'r targedau ar gyfer cynefinoedd rhostir tir isel a dolydd gwair bron â chael eu cyrraedd. Ond bydd yn rhaid mynd ar drywydd gwelliannau pellach ar gyfer cynefinoedd eraill megis gorgorsydd, gwelyau cyrs a ffen, fflatiau llaid, twyni tywod arfordirol, cloddiau, calchbalmentydd, afonydd a llynnoedd.

Rhaid rheoli mewn ffyrdd gwell y gorbori ar dir uchel a chynefinoedd gweundir, draeniau ac yn benodol dip defaid, gwrteithiau a phlaladdwyr. O safbwynt y pwynt ofal hwn, dylai Tir Gofal gael ei ysbrydoli gan rai mesurau Ffermio Organig.

Mae manylion yr argymhellion allweddol ar gyfer materion amaeth-amgylcheddol a bioamrywiaeth Cymru i'w gweld yn rhan tri:

Creu rhagor o fesurau cyfeillgar i fioamrywiaeth dan y cynllun Tir Gofal, rhoi sylw i'r prif fygythiadau ffermio i fioamrywiaeth; canolbwyntio ar gyfraddau pori, system gnydio a ffynonellau mewnbwn ffermio.

- Dylai arolwg o waith monitro Tir Gofal, wedi'i ysbrydoli gan waith monitro ESA gael ei gyhoeddi ar fyrder. Yn seiliedig arno, mae'n bosib y gellid gwella'r cynlluniau. Mae hwn yn darparu gwybodaeth o statws cynefinoedd Cymru.

- Hybu ymwybyddiaeth ymysg ffermwyr heddiw a hefyd ffermwyr yfory gyda sesiynau hyfforddiant penodol am fioamrywiaeth.

- Parhau i annog, cefnogi, cynghori a chynorthwyo ffermwyr i ymuno â'r cynllun Tir Gofal.

- Cyflwyno rhagofynion hyblyg ac y gellid eu haddasu i'r cynllun Tir Gofal er mwyn canolbwyntio ar gyflawni LBAP. Er mwyn cynyddu gwerth y cynllun i fioamrywiaeth, addasu'r mesurau presennol i gynorthwyo i warchod cynefinoedd lleol penodol yn well neu/ac ymestyn a datblygu'r cynlluniau bioamrywiaeth lleol presennol (BAP Fferm FWAG, Gwella Bioamrywiaeth Ceredigion a Chynllun Gweithredu Natur Gwynedd i'r dyfodol) i ardaloedd eraill. Mae hyn yn golygu cyllid gwell i'r cynlluniau gwirfoddol lleol hyn.

- Teilwrio rheolaeth tir priodol a lleol i gyflawni Targedau HAP.

- Ond, ni ddylai'r mesurau addas lleol cael eu cyfyngu i gynefinoedd penodol ond yn hytrach dylid eu defnyddio a'u rheoli ar lefel y dirwedd ac nid yn unig ar raddfa'r fferm.

Yn olaf, gellid defnyddio'r adroddiad hwn fel dogfen gyfeirio ar gyfer LBAPs Gogledd Orllewin Cymru.